**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 4ydd Medi 2019 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, T. Thomas, R. J. Turner a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**13. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd P. Prendergast.

**14. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – GORFFENNAF/AWST 2019**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o Nwyddau a Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 777 | Shire Leasing | 379.33 | Taliad Ch2 Prydles System Ffôn Avaya 19/20 |
| 778 | BT | 366.12 | Taliadau galwadau a rhentu llinell |
| 785 | BT | 97.76 | Rhentu Llinell |
| 779 | HSBC | 7.02 | Taliadau Banc 17 Mai 2019 - 16 Mehefin 2019 |
| 805 | Cyngor Sir y Fflint (Cronfa Bensiwn Clwyd) | 4,290.48 | Cyfraniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Mehefin 2019 |
| 804 | HMRC | 2,743.31 | Didyniadau PAYE Mehefin 2019 |
| 786 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Mehefin 2019 |
| 803 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,142.52 | Cyflogau Staff Gorffennaf 2019 |
| 716 | Cyngor Sir Ddinbych | 723.00 | TANC ar gyfer Swyddfeydd Ffordd Wellington - Taliad 4 o 10 |
| 723 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.67 | Swyddog Apeliadau Rhan-amser 19/20 Taliad 4 o 12 |
| 801 | Sage & Co | 93.00 | Gwasanaethau Cyflogres Ebrill - Mehefin 2019 |
| 731 | Cyngor ar Bopeth | 2,000.00 | Swyddog Arbed Ynni 19/20 Taliad 2 o 4 |
| 735 | Cymdeithas Gymunedol y Rhyl | 2,550.00 | Ffi Rheoli CG Tynewydd 19/20 Taliad 2 o 4 |
| 810 | HSBC | 7.90 | Taliadau Banc 17eg Mehefin 2019 i 16eg Gorffennaf 2019 |
| 815 | Cyngor Sir y Fflint (Cronfa Bensiynau | 4,290.48 | Cyfraniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Gorffennaf 2019 |

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o Nwyddau a Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| | Clwyd) | | |
| 816 | HMRC | 2,743.11 | Didyniadau PAYE Gorffennaf 2019 |
| 811 | Gunsmoke Communications | 1,600.00 | Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Gorffennaf 2019 |
| 817 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,142.32 | Cyflogau Staff Awst 2019 |
| 716 | Cyngor Sir Ddinbych | 723.00 | TANC ar gyfer Swyddfeydd Ffordd Wellington - Taliad 5 o 10 |
| 723 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.67 | Swyddog Apeliadau Rhan-amser 19/20 Taliad 5 o 12 |
| 812 | Canda Copying | 321.49 | Rhentu Llungopiwr a Chopiau Du a Gwyn |
| 813 | Canda Copying | 123.28 | Copiau Lliw |
| 814 | Sioned Graham Cameron | 644.90 | Ffioedd Cyfieithu Ebrill i Orffennaf 2019 |
| 823 | Neopost | 200.00 | Arian Peiriant Ffrancio |
| | | | |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£41,462.36** | |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

**15. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 806 | Chernobyl Children Life Line | 2 x Docyn ar gyfer noson codi arian Canu'r Enaid 26 Gorffennaf 2019 | 20.00 |
| 807 | Cyngor Tref Towyn a Chinmel | 2 x Tocyn ar gyfer Te Prynhawn Elusen 20fed Gorffennaf | 24.00 |
| 808 | Gunsmoke Communications | Treuliau amrywiol ar gyfer 'Sadwrn y Syrcas' ar 13 Gorffennaf 2019 | 50.40 |
| 809 | Cyngor Sir Ddinbych | Sachau Ailgylchu | 53.00 |
| 818 | Dozy Dave | Diddanwr Plant ar gyfer Parti Nadolig ar 13 Rhagfyr 2019 | 270.00 |
| 819 | Sant Ioan Cymru | Darpariaeth Cymorth Cyntaf ar gyfer 'Sadwrn y Syrcas' ar 13 Gorffennaf 2019 | 72.00 |
| 820 | Y Cyngh E Chard | Treuliau cymorth y Maer ar gyfer Gorffennaf 2019 | 185.95 |
| 821 | Y Cyngh D King | Treuliau cymorth y Dirprwy Faer ar gyfer Gorffennaf 2019 | 142.23 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 822 | Cronfa Dawns Elusen Maer Dinbych | 2 x docyn ar gyfer Cyngerdd Elusen 14 Medi 2019 | 20.00 |
| 824 | Y Cyngh E Chard | Lwfans y Maer 19/20 Taliad 2 o 3 | 433.00 |
| 825 | Y Cyngh D King | Lwfans y Dirprwy Faer 19/20 Taliad 2 o 3 | 133.00 |
| 826 | Y Cyngh E Chard | Lwfans Uwch Aelod ar gyfer 19/20 Taliad 2 o 3 | 167.00 |
| 827 | Y Cyngh D King | Lwfans Uwch Aelod ar gyfer 19/20 Taliad 2 o 3 | 167.00 |
| 828 | Apêl Pabi Gogledd Cymru | 3 x Torch Ddinesig Math G | 150.00 |
| 829 | Cyngor Sir Ddinbych | Taliadau Gwasanaeth CG Ffordd Wellington Ebrill i Ragfyr 2019 | 11,469.00 |
| 830 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | Cyllid cyfatebol tuag at swydd Swyddog Apeliadau | 8,000.00 |
| | | **Cyfanswm Atodlen B** | **£21,356.58** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd a chymeradwywyd yr ychwanegiadau canlynol i'r rhestr o gyflenwyr cymeradwy:*

- Dozy Dave
- HomeStart Cymru
- Elusen Maer Dinbych

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

## 16. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 31AIN GORFFENNAF AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2019/20

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ac yn benodol at y gwarged a ragwelir o £29,000 o gymharu â'r diffyg blaenorol a ragwelwyr o £17,000.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 17. CAIS I GYFLWYNO ARWYDDLUN Y DREF

Adroddodd Clerc y Dref bod cais wedi dod gan gadeirydd Cymdeithas Theatr Gymunedol Clwyd i'r Maer gyflwyno arwyddlun y dref i Ffederasiwn Gwyliau Cymunedol y DU pan gynhelir cystadleuaeth genedlaethol yn Theatr y Pafiliwn, y Rhyl ym mis Mehefin 2020.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais.*

## 18. CAIS I WNEUD CYFLWYNIAD I'R CYNGOR – 'TOGETHER IN DEMENTIA EVERYDAY' (TIDE)

Dywedodd Clerc y Dref bod y corff uchod wedi gofyn os caiff wneud cyflwyniad i'r cyngor ar y gwaith maent yn ei wneud.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais.*

## 19. EITEM GAN AELOD: FFRYDIO CYFARFODYDD Y CYNGOR YN FYW

Adroddodd y Cynghorydd J. Ball iddo gael ceisiadau gan drigolion ei ward yn gofyn i gyfarfodydd y Cyngor Tref gael eu ffrydio'n fyw fel nifer o rai Cyngor Sir Ddinbych, er mwyn i drigolion gyda symudedd cyfyngedig fedru gweld cyfarfodydd.

Teimlai'r aelodau y byddai'r gost o brynu'r offer a'r 'argostau' yn arwyddocaol, a dywedwyd bod system Sir Ddinbych wedi costio £400,000 ynghyd â chostau rhedeg a chan gynnwys swyddog penodol. Serch hynny, roedd yn bwysig bod y Cyngor Tref yn flaengar ac fe roddid ystyriaeth ddyledus i'r mater a chydbwyso hynny yn erbyn y ffigurau gwylio tebygol i gyfiawnhau'r gwariant.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn ystyried y cynnig ac yn adrodd yn ôl ar y costau tebygol a'r manylion.*

## 20. EITEM GAN AELOD: CANOLFAN GYMUNEDOL TYNEWYDD

Adroddodd y Cynghorydd T. Thomas bod cyfarfod cyhoeddus wedi ei gynnal yn y ganolfan ar 23ain Awst 2019, gyda 50-60 o bobl yn mynychu. Roedd cywair y cyfarfod yn angerddol ac fe leisiwyd neges gref i gadw'r ganolfan ar agor.

Awgrymodd y Cynghorydd Thomas bod y Cyngor Tref yn cysylltu gyda Chymdeithas Gymunedol y Rhyl (sydd ar hyn o bryd yn rheoli'r ganolfan ar ran y cyngor) i ofyn os hoffent gymryd meddiant o'r adeilad.

Teimlai'r Cynghorydd Thomas y byddai'r cynnig yn cael derbyniad cadarnhaol gan yr RCA, a oedd efallai yn y sefyllfa orau i ofalu am y ganolfan ac roedd ganddynt brofiad yn ddiweddar o ddenu cyllid i wella Canolfan Gymunedol Fforddlas yr oedd yn berchen arni, gyda golwg ar sicrhau bod canolfan Tynewydd yn cyrraedd y safonau angenrheidiol a chadw'r cyfleustra ar agor.

Cefnogodd yr aelodau y cynnig fel ffordd ddoeth.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cynnig a chyfeirio'r mater i Is-bwyllgor Asesu Risg y cyngor er mwyn llunio dull o wneud hyn a chynnig hynny i'r RCA.*

## 21. EITEM ER GWYBODAETH I'R AELODAU: HYSBYSIAD CYHOEDDUS

Dywedodd Clerc y Dref bod hysbysiad cyhoeddus wedi ymddangos yn rhifyn yr wythnos hon o'r Rhyl, Prestatyn and Abergele Journal yn ymwneud ag adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru ar gyfraniad y Cyngor Tref tuag at SC2.

Ychwanegodd Clerc y Dref nad oedd yr adroddiad yn un buddiant y cyhoedd, ond yn un cynghorol ac y byddai'r adroddiad yn cael ei ystyried yn ffurfiol yng nghyfarfod y Cyngor ar 18fed Medi 2019.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod yr wybodaeth.*

**22. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *bod y Rheolau Sefydlog yn cael eu hatal i alluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.*

**23. COEDEN NADOLIG 2019/20**

Gofynnodd Clerc y Dref am arweiniad yr aelodau o ran maint y goeden i'w harchebu ar gyfer y stryd fawr y Nadolig hwn, fel a ganlyn (prisiau'n cynnwys danfon, gosod a symud ymaith):

22ft (fel y llynedd) - £1,150
25ft - £1,225
30ft - £1,400

***PENDERFYNWYD****:*

*(i) Bod Clerc y Dref yn archebu coeden 30 troedfedd ar unwaith, ac archebu goleuadau ychwanegol i sicrhau arddangosfa dda.*

*(ii) Bydd y cyngor yn adolygu ei ddarparwr presennol gyda golwg ar gael coed yn y dyfodol o le yn agosach at adref er mwyn lleihau'r ôl troed carbon a achosir drwy archebu coed o'r Alban.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *bod y Rheolau Sefydlog yn cael eu hatal i alluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.*
.

**24. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ………………………